



MERTHYR TYDFIL

County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol

MERTHYR TUDFUL



Strategaeth Caffael

2016 – 2019

Teitl y Ddogfen:	Strategaeth Caffael
Dyddiad y Ddogfen:	12 Rhagfyr 2015
Awdur/on:	Rheolwr Caffael
Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y ddogfen hon:	Caffael
Cyfarwyddiaeth:	Lle a Thrawsnewidiad
Cymeradwywyd gan: <i>(e.e.Cabinet, Cyngor, Bwrdd)</i>	Y Cyngor
Cymeradwywyd ar:	27 Ionawr 2016
Dyddiad Adolygu:	Rhagfyr 2016
I'w gyhoeddi ar: Mewnwyd/Gwefan/y ddau	Y ddau
Geiriau allweddol at ddibenion chwilio:	Caffael
Dogfennau a pholisiau perthnasol:	Rheolau Caffael

Rhagair

Mae'r Strategaeth Caffael hon wedi ei gosod yn ystod cyfnod o gynnig ariannol gyda llawer o heriau'n wynebu Llywodraeth Leol. Mae lleihau o ran gwariant cyhoeddus, poblogaeth sy'n heneiddio, disgwyliadau'r cyhoedd yn codi a newidiadau cymdeithasol eraill i gyd yn cynyddu'r gofynion ar wasanaethau, gyda disgwyliadau uchel o ran yr hyn gall Caffael ei gyflenwi. Yng nghyd-destun gostyngiadau difrifol o ran ariannu'r Llywodraeth, mae Strategaeth Caffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ei gynllunio i helpu i gyflenwi'r gwasanaethau gorau posibl a gwerth am arian.

Mae canllawiau a gofynion cyfreithiol llym wedi eu gosod gan Lywodraethau Ewrop, San Steffan a Chymru yn y modd y mae darparwyr nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn cael eu dewis i Ferthyr Tudful. Mae'r strategaeth yn mynd i'r afael â phob elfen o bolisi a gweithgaredd Caffael.

Mae'r Strategaeth Caffael yn ganolog o ran cadarnhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn Awdurdod Lleol blaengar sy'n defnyddio ei ddyraniad o adnoddau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd yn unol â'i egwyddorion o degwch, cywirdeb a thryloywder. Mae ganddo ddylanwad posibl ar y ffordd mae ein cyflenwyr yn glynu wrth yr egwyddorion hyn ac y mae'n arf o ran eu datblygu nhw ymhlith y gymuned leol yr ydym yn ei gwasanaethu a'i chynrychioli.

Caiff y strategaeth hon ei harwain gan Ddatganiad Polisi Caffael Cymru sydd newydd ei diwygio, sy'n cydnabod y gall Caffael fod yn arf strategol o ran cyflenwi gwell manteision economaidd a chymunedol i bobl Merthyr Tudful a thu hwnt, wrth weithio o fewn cyfyngiadau anodd sy'n ein hamgylchynu ar hyn o bryd o ran adnoddau.

Y Cynghorydd Phil Williams

1	CYFLWYNIAD - GOSOD Y STRATEGAETH YN EI CHYD-DESTUN	5
1.1	Cyflwyniad	5
1.2	Y Strategaeth	5
1.3	Nodau'r Strategaeth Caffael	5
2	CYDSYNIAD Â DEDDFWRIAETH GENEDLAETHOL A CHYNLLUNIAU LLEOL	7
2.1	Deddfwriaeth Genedlaethol	7
2.2	Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru	7
2.3	Dolen i'r Cynllun Corfforaethol	7
2.4	Y berthynas â strategaethau, polisiau a chynlluniau eraill	8
3	LLYWODRAETHU	10
3.1	Strwythur	10
3.2	Atebolrwydd ac adrodd yn ôl	10
3.3	Cyfathrebiadau a gwybodaeth	10
3.4	Moeseg	11
4	PROSESAU	12
4.1	Diben a Nod Prosesau Caffael	12
4.2	Rheoli Categori	12
4.3	Cyrchu strategol	12
4.4	Rheoli'r Farchnad	12
4.5	Rheoli Gwariant	13
4.6	Rheoli Contract a Risg	13
4.7	Costio Oes Gyfan	13
5	CYRCHU CYDWEITHREDOL	14
5.1	Pwrpas a Nod	14
5.2	Cyrff Cydweithredol	14
5.3	Proses a Chydymffurfiaeth	14
6	E-GAFFAEL A THECHNOLEG	16
6.1	e-Caffael a Thechnoleg Strategy	16
6.2	Arfer Cyfredol	16
6.3	Mabwysiadu offer Newydd	16
6.4	Gwelliannau mewn Technoleg	16
7	BUDDION CYMUNEDOL, AMGYLCHEDD A CHYDRADDOLDEB	18
7.1	Pwrpas a Nod	18
7.2	Gweithio oddi fewn i'r economi leol	18
7.3	Caffael a'r amgylchedd	18
7.4	Dyletswydd Cydraddoldeb	18
8	POBL	20
8.1	Pwrpas a Nod	20
8.2	Gallu a chapasiti	20
8.3	Hyfforddi a Chefnogi Datblygiad	20

1 Cyflwyniad - Gosod y Strategaeth yn ei Chyd-destun

1.1 Cyflwyniad

Ni all y Cyngor gyflenwi a diwallu holl anghenion dinasyddion Merthyr Tudful ar ei ben ei hun. Ymhlith eraill y mae'n ddibynol ar gyflenwyr trydydd parti i'w alluogi i wneud hynny. Mae'r Cyngor yn gwario dros £90 miliwn gyda chynrychiolwyr trydydd parti ar gyfer darparu gwasanaethau, nwyddau a phrosiectau cyfalaf. Mae pob adran o'r Cyngor yn ddibynol ar y mewnbynnau hyn i gefnogi eu gweithgareddau a'u galluogi i gyflawni'r deilliannau sydd wedi eu dynodi i ddiwallu anghenion pobl Merthyr Tudful.

Fodd bynnag, nid yw'n ddigon i ddim ond cael gafael ar yr adnoddau hyn, rhaid i ni wneud hynny yn y ffordd fwyaf optimaidd posibl, gan gaffael yr adnoddau cywir wrth gael gwir werth am arian a chyflawni buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Er mwyn cyflawni hyn mae angen i ni gadw mwy o reolaeth ar ein dull gweithredu o ran gwario arian a'i wneud yn fwy rheoledig. Nid yw dull gweithredu ad-hoc yn dderbyniol ac ni fydd yn cyflenwi'r deilliannau sydd eu hangen arnom o'n perthynas â'n cyflenwyr i redeg Cyngor effeithiol ac effeithlon, felly'r angen am Strategaeth Caffael

Bydd cefnogaeth a chydabyddiaeth fod caffael yn weithgaredd strategol a all gyfrannu'n gadarnhaol at gyflenwi nodau ac effeithlonrwydd y Cyngor yn hanfodol wrth gyflenwi'r strategaeth. Felly bydd arweiniad corfforaethol cryf yn ofynnol ac ymrwymiad ar bob lefel ar draws y Cyngor i sicrhau bod arfer da o ran caffael yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws y sefydliad.

1.2 Y Strategaeth

Nod y Strategaeth yw gosod gweledigaeth ar gyfer cyflenwi gweithgaredd caffael ar draws y Cyngor a'i sefydliadau cysylltiol. Y bwriad yw darparu canllaw i'r swyddogion hynny sy'n caffael a chomisiynu gwasanaethau, nwyddau a phrosiectau cyfalaf ar ran y Cyngor a'u helpu i ddeall sut mae Caffael yn effeithio ar eu rôl a'u nodau a'r hyn allant ei wneud i gael gwir werth drwy'r caffael y maent yn ymwneud ag ef ac ar y cyd â sefydliadau trydydd parti y maen nhw'n delio â nhw.

1.3 Nodau'r Strategaeth Caffael

Nodau'r Strategaeth Caffael yw;

- Pennu trywydd a gwelliant pob gweithgaredd Caffael yn y Cyngor er mwyn cefnogi gwasanaethau llinell flaen a'r ffordd yr ydym yn eu gweithredu
- Gwella gallu a chapasiti Caffael ar draws y Cyngor
- Sefydlu caffael fel gweithgaredd strategol o fewn y Cyngor
- Hyrwyddo egwyddorion polisi Caffael allweddol y Cyngor a'r modd y maen nhw'n

cefnogi cyflenwi'r cynllun corfforaethol a chyflenwi gwasanaeth

- Darparu gwerth am arian a chyflawni'r holl fuddion sydd ar gael drwy gymhwyso Caffael effeithiol a rheoli cyflenwyr trydydd parti
- Sefydlu Caffael da fel cerbyd ar gyfer newid.

2 Cydsyniad â Deddfwriaeth Genedlaethol a Chynlluniau Lleol

Bydd llwyddiant y strategaeth hon yn llwyddo ddim ond os fydd yn nodi a chydsynio ag amrywiaeth eang o ddeddfwriaeth a pholisïau eraill. Y rhai mwyaf nodedig ohonynt yw:

2.1 Deddfwriaeth Genedlaethol

Bydd y strategaeth hon yn arddangos ac yn sicrhau cydsynio â Deddfwriaeth Genedlaethol yn enwedig o ran caffael, Rheoliadau Contract Cyhoeddus 2015 (Cyfarwyddyd Caffael UE) a deddfwriaeth sy'n pennu ein dull gweithredu cyflenwi gwasanaethau penodol fel Deddf Gwasanaethau cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Yn ychwanegol byddwn yn defnyddio gofynion deddfwriaethol eraill fel y Ddeddf Cydraddoldebau i ychwanegu gwerth at eich gweithgareddau Caffael yn ogystal â chydsynio â nhw. Mae llawer iawn o ddeddfwriaeth yn effeithio ar y caffael ar draws y Cyngor a byddwn yn annog adrannau i fynd i'r afael â hyn fel rhan o'u gweithgareddau Contractio a Chomisiynu.

2.2 Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru

Cafodd y strategaeth hon ei datblygu yn unol â Datganiad Polisi Caffael Cymru diwygiedig ac mae'n mabwysiadu ei egwyddorion. Cyfeirir at gyfeiriad gwirioneddol y strategaeth drwy gydol y ddogfen hon ond mae'r 10 egwyddor yn cynnwys y meysydd canlynol o ran caffael;

- Strategol
- Adnoddau proffesiynol
- Effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol
- Buddion cymunedol
- Cystadleuaeth Agored, Hygyrch
- Prosesau wedi eu symleiddio a'u safoni
- Cydweithio
- Ymgysylltiad ac arloesedd y Cyflenwr
- Datblygu a Gweithredu Polisi (newydd)
- Mesur ac Effaith

Byddwn yn ceisio gweithio a chydsynio â Pholisi Llywodraeth Cymru sy'n ymddangos wrth iddo ymateb i newidiadau yn yr amgylchedd allanol.

2.3 Dolen i'r Cynllun Corfforaethol

Dylai'r Strategaeth Caffael gael ei llywio, ac yn ei thro lywio, Cynllun Corfforaethol 2013-17 sy'n gosod allan prif flaenoriaethau'r Cyngor a pha gaffaeliad fydd yn darparu'r

mewnbynau canlynol

1. Codi Safonau Cyrhaeddiad
Sicrhau bod y comisiynwyr yn caffael y darparwyr cywir i gyflenwi gwasanaethau plant a bod rheolaeth gynhwysfawr o unrhyw risg cysylltiedig drwy gydol y broses.
2. Cyflogadwyaeth
Sicrhau bod cadwyn cyflenwi'r Cyngor yn rheoli a hyrwyddo'r ymgysylltiad â chyflogaeth leol yn effeithiol wrth gyflenwi Contractau a Gwasanaethau yn y Cyngor Bwrdeistref.
3. Datblygiad Economaidd
Sicrhewch fod cysylltiadau agos yn cael eu mewnbllannu rhwng caffael a datblygiad economaidd er mwyn gyrru cyfleoedd yn eu blaen ar gyfer BBaChau a datblygu cadwyni cyflenwi lleol.
4. Ffordd o fyw Actif
Sicrhau fod arferion caffael yn cyfrannu at les cyffredinol dinasyddion Merthyr Tudful gan weithio oddi fewn i ddeddfwriaeth fel Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
5. Hyrwyddo Annibyniaeth
Sicrhau bod ein cyflenwi o ran cyfalaf ac adnoddau cefnogi yn helpu preswylwyr difreintiedig i fyw bywydau annibynnol ac archwilio cyfleoedd oddi fewn i ddeddfwriaeth caffael er mwyn cyflawni hyn.
6. Amgylchedd Cynaliadwy
Cefnogi mentrau cyfredol o ran rheoli gwastraff a chael gwared ar wastraff wrth gyflenwi gwasanaethau'r Cyngor a gweithio gyda'n cadwyni cyflenwi i ddileu arferion amgylcheddol gwael a chynyddu gwerth.
7. Diwallu anghenion Plant sy'n Agored i Niwed
Cynorthwyo o ran y ddarpariaeth o wasanaethau ataliad ac ymyrraeth gynnar effeithiol i gefnogi plant cyn bod problemau'n gwaethygu.

Bydd caffael a rheoli adnoddau pob trydydd parti yn effeithiol, yn darparu mewnbwn sylweddol o ran cyflawni'r nodau hyn a chydysniad â'r ddeddfwriaeth ehangach y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddi fel Rheoliadau Contract Cyhoeddus 2015.

2.4 Y berthynas â strategaethau, polisiau a chynlluniau eraill

Dylai'r Strategaeth Caffael hefyd greu dolen â, a chefnogi strategaethau, polisiau a chynlluniau eraill oddi fewn i'r Cyngor a'r rheini a osodwyd gan berthynas allanol. Yn benodol, dylai caffael, lywio a chael ei lywio gan gynlluniau gwasanaeth blynyddol yr adrannau.

Bydd hyn yn galluogi Caffael i gael ei gyflawni drwy gynllun caffael systematig a fydd yn darparu llawer o fanteision wrth i ni geisio cael adnoddau oddi wrth ein cadwyni cyflenwi niferus drwyddynt draw, er enghraifft galluogi'r Cyngor i gael marchnad yn gyflymach mewn ardaloedd ble yr ydym yn cystadlu am gyflenwadau oddi wrth eraill.

Ni all gweithredu ymagweddau arloesol ac effeithiol tuag at gaffael ddigwydd heb ymrwymiad a chefnogaeth ein rhanddeiliaid ar bob lefel o'r Cyngor drwyddo draw a chefnogaeth sefydliadau partner a chyflenwyr sy'n cydweithio.

3 Llywodraethu

3.1 Strwythur

Rydym wrthi'n gweithio ar lunio strwythur a fydd yn adlewyrchu anghenion y Cyngor gyda golwg ar ei gaffaeliad a'i weithgaredd comisiynu a fydd yn adlewyrchu ein ffyrdd newidiol o weithio gyda rhanddeiliaid, partneriaid a chyflenwyr yn ein cadwyni cyflenwi.

Rydym yn cydnabod yr angen i wella'r gweithgaredd hwn ar draws y Cyngor ac nid o fewn swyddogaeth caffael yn unig. O ganlyniad caiff y gyriant am welliant oddi fewn i weithgaredd caffael ei berchnogi a'i arwain gan Gabinet y Cyngor ac Uwch Reolwyr a'i gyflenwi gan swyddogion ar draws y Cyngor.

Ceir llawer o orgyffwrdd o ran canlyniadau Caffael a Newid Busnes, gan fod y ddau yn adnoddau corfforaethol, felly, bydd angen ffurfio dolen agosach rhwng y ddwy adran i sicrhau bod gofynion Caffael yn cael eu dal a'u rheoli'n effeithiol drwy'r broses newid busnes.

Bydd swyddogaeth Caffael yn cefnogi holl Adrannau'r Cyngor a'u swyddogion yn eu gweithgareddau Caffael a thrafodaethol; bydd yn ymddwyn mewn rôl ymgynghorol, sy'n galluogi ac sy'n ymarferol i sicrhau ymagweddau effeithiol a chyson ar draws y Cyngor.

3.2 Atebolwydd ac adrodd yn ôl

Bydd swyddogaeth Caffael yn gorwedd oddi fewn i'r adran gyllid a bydd yn atebol i Bennaeth Cyllid, arweinydd rheoli a fydd yn cael ei gefnogi gan y Rheolwr Caffael a'u tîm. Bydd cyfrifoldeb gwleidyddol gan yr aelod Port Ffolio ar gyfer Cyllid.

Caiff adrodd yn ôl rheolaidd am weithgaredd Caffael ei wneud i'r uwch dimau rheoli ac i'r pwyllgorau perthnasol a'r cabinet fel sy'n briodol. Bydd cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol, yn seiliedig er enghraifft ar arbedion costau, gwariant a chydysyniad yn cael eu datblygu i helpu hwyluso penderfyniadau gwybodus o ran perfformiad a gwelliant. Caiff adroddiad chwarterol ei gynllunio ar effeithlonrwydd o ran arian parod ac adroddir yn ôl amdano i'r Cabinet.

Datganiad Polisi Caffael Cymru sy'n gyrru'r targedau ac argymhellion o'r gwiriadau ffitrwydd Caffael KPMG a gyflawnwyd yn Rhagfyr 2013. Dynododd y gwiriad ffitrwydd bod aeddfedrwydd Merthyr o ran Caffael yn 'gweithio tuag at gydymffurfiad'. Drwy'r strategaeth hon, mae'r Cyngor wedi cael y cyfle i wella ein gallu i gyflawni gwell canlyniadau asesiadau aeddfedrwydd y dyfodol.

3.3 Cyfathrebiadau a gwybodaeth

Bydd y swyddogaeth Caffael yn datblygu cynllun cyfathrebu priodol i sicrhau ymgysylltu a hysbysu'r holl randdeiliaid fel sy'n angenrheidiol. Mae llif o wybodaeth dda ynghylch cylch Caffael yn hanfodol ar gyfer Caffael effeithiol a chyflawni gwerth am arian.

Bydd datblygiad arfaethedig Rheoli Categori yn helpu i hwyluso hyn ond mae angen iddo gael cefnogaeth cynlluniau cyfathrebu effeithiol ar gyfer proses a phrosiectau ill dau.

Bydd cynlluniau cyfathrebu'n cynnwys llifoedd gwybodaeth priodol ar gyfer aelodau etholedig i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am weithgareddau Caffael strategol a hanfodol. Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol yn y Canllaw Caffael ar y fewnwyd.

Cynigir bod yr Adran Gaffael yn cymryd cyfrifoldeb ar gyfer cadw a rheoli Contractau i sicrhau tryloywder y broses Caffael yn ei chyfanrwydd.

Caiff gwybodaeth ei darparu i'r farchnadfa mewn modd clir a thryloyw gan gydsynio â gofynion Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Contract Cyhoeddus a strategaethau Datganiad Polisi Caffael Cymru.

Caiff adroddiadau eu darparu i Lywodraeth Cymru drwy ffurflen flynyddol ar ddeilliannau Caffael i arddangos y cynnydd a wnaed.

3.4 Moeseg

Er mwyn cynnal enw da'r Cyngor ymglymerir â holl weithgareddau Caffael i'r safonau uchaf o gywirdeb a phroffesiynoldeb. Bydd aelodau a swyddogion yn deg ac yn foisol ac yn osgoi ymddygiad a allai wrth-ddweud hyn neu awgrymu gwrthdaro buddiannau.

Bydd y tîm Caffael yn cydsynio â chod moeseg Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi gan hyrwyddo hyn ar draws y Cyngor i'r holl aelodau staff sydd â chyfrifoldeb dros draddodi gwariant.

4 Prosesau

4.1 Diben a Nod Prosesau Caffael

Nod casgliad effeithiol o brosesau Caffael yw cyflenwi'r adnoddau cywir i'r lle cywir ar yr amser cywir ac i'r bobl gywir wrth gyflenwi'r gwerth am arian y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei arddangos. I'r perwyl hwn byddwn yn parhau i ddatblygu ein hymagwedd at Reoli Categori ymhlith prosesau Caffael eraill, gan gynnal ymagwedd safonol, agored a thryloyw ar yr un pryd o ran y ffordd rydym yn ei gymhwyso. Byddwn hefyd yn mabwysiadu ymagwedd lawer ehangach i'r modd yr ydym yn caffael, gan fabwysiadu ymagwedd Costio Oes Gyfan wrth gaffael ein hadnoddau a'n nod o sicrhau gwerth am arian.

4.2 Rheoli Categori

Ein nod yw datblygu ymagwedd Rheoli Categori ac ymagwedd fwy holistaidd tuag at Gaffael, gan ymdoddi â'r gweithgaredd comisiynu o ran gwneud penderfyniadau ar ystod ehangach o wybodaeth. Mae gwireddu a gwneud y mwyaf o werth ar draws gwahanol gategoriâu'r sefydliadau o wariant trydydd parti dylanwadol, yn broses strwythuredig sy'n cymryd y canlynol i ystyriaeth

- Anghenion busnes
- Gwybodaeth a mecanwaith y farchnad
- Deall gwario a galw o fewn y maes categori
- Yr angen i yrru gwerth a datrysiadau arloesol

Wrth ddefnyddio Rheoli Categori byddwn yn gwneud penderfyniadau Caffael mwy gwybodus yn cynnwys allbwn yr holl randdeiliaid.

4.3 Cyrchu strategol

Bydd ymagwedd fwy miniog at gyrchu strategol yn sicrhau ymhellach ein bod ni'n gwneud y penderfyniadau cywir wrth wneud ein penderfyniadau Caffael o ran bodloni anghenion busnes ein marchnadoedd drwy'r dadansoddiad proactif a chynlluniedig ohonynt a'r cyflenwyr ynddynt. Bydd datblygu strategaeth ffynonellu ar gyfer prif Gaffael yn darparu deilliannau llawer gwell na'r ymagwedd ymatebol arferol at ffynonellu. Bydd swyddogaeth Caffael yn gweithio'n agos at adrannau i ddatblygu'r ymagwedd hon.

4.4 Rheoli'r Farchnad

Yn unol â strategaeth ffynonellu mae angen i ni bennu'r ffordd orau i ni barhau i weithio oddi fewn i'r marchnadoedd yr ydym yn gweithio ynddynt ac i gydsynio ag egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru sy'n mynd i'r afael â'r marchnadoedd hynny sy'n arddangos

cystadleuaeth agored hygyrch, safonau a phrosesau wedi eu symleiddio, ymgysylltiad/arloesedd cyflenwr a chydweithio. Mae angen i ni ddeall y mecanwaith sy'n effeithio ar farchnadoedd yn well ac o ganlyniad ein gallu i gyflenwi gwasanaethau sy'n dangos gwerth am arian. Mae angen i ni hefyd ystyried y perthnasoedd yr ydym yn eu datblygu oddi fewn i bob un o'r marchnadoedd yr ydym yn eu gweithredu.

4.5 Rheoli Gwariant

Bydd ein gallu i wybod a deall yr hyn yr ydym yn ei wario go iawn a pham yr ydym yn gwario yn y modd hwnnw yn hanfodol o ran gweithredu'r Strategaeth Caffael hwn. Bydd y swyddogaeth Caffael yn cefnogi adrannau i ddeall y wybodaeth hon a'r gweithredoedd angenrheidiol fel ymateb i'r data a gasglwyd e.e. cyfleoedd i gydweithio a chydgrynhoi, yn fewnol ac yn allanol, arbedion cost, effeithlonrwydd o ran arian parod a newidiadau o ran ymagweddau at farchnadoedd. Bydd Caffael yn helpu i bennu'r ffordd fwyaf effeithiol, effeithlon ac economaidd o gyflawni hyn gan gynnwys ystyried darpariaeth mewn tŷ a defnyddio trefniadau mewnol cyfredol a threfniadau cydweithio cyfredol.

4.6 Rheoli Contract a Risg

Yn aml, mae Cyngorau wedi cael eu cyhuddo o esgeuluso ym maes rheoli Contract, ac eto dyma, o bosibl, y cam mwyaf hanfodol o'r cylch Caffael. Dyma'r pwynt pan fo gwasanaethau nwyddau neu waith yn cael eu cyflenwi mewn gwirionedd. I'r perwyl hwn byddwn yn ymdrechu i weithredu ymagwedd effeithiol ac effeithlon i reoli Contract gan sicrhau cydsynio, perthnasoedd effeithiol â'r cyflenwr a rheoli perfformiad. Byddwn hefyd yn cyflwyno ymagwedd broactrif, gadarnhaol at reoli risg a gwelliant parhaus â chyn lleied o amhariad ar wasanaethau'r Cyngor tra bo newid cadarnhaol a gwelliannau i gyflenwi gwasanaeth yn cael eucofleidio.

4.7 Costio Oes Gyfan (WLC)

Amlygodd y newidiadau diweddar i reoliadau Contract Cyhoeddus a Datganiad Polisi Caffael Cymru diwygiedig yr angen a'r rhesymau dros fabwysiadu ymagwedd Costio Oes Gyfan i Gaffael, gan ein gwneud ni i ofyn y cwestiwn beth yw gwir gost yr adnodd hwn yn hytrach na beth yw'r pris rhataf y gallwn ei brynu. Mae'r pwyslais ar Dendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd oddi fewn i gyfarwyddeb Caffael UE diwygiedig yn ei wneud yn ofynnol y bydd y Cyngor yn parhau i adeiladu'r egwyddorion hyn i mewn i'r prosiectau Caffael.

5 Cyrchu Cydweithredol

5.1 Pwrpas a Nod

Mae cydweithredu mewn perthynas â Chaffael yn un o gonglfeini Datganiad Polisi Caffael Cymru ac yn arf allweddol i alluogi'r Cyngor i gyflawni mwy o werth am arian, nid yn unig o ran dod â meysydd allweddol gwariant ynghyd ond hefyd o ran rhannu adnoddau, profiad, gwybodaeth a hyfforddiant a gweithgareddau datblygu Caffael.

5.2 Cyrff Cydweithredol

Mae'r Cyngor wedi cytuno â, ac arwyddo i gydsynio â Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru (Datganiadau Polisi Cenedlaethol) Byddwn yn cefnogi ei weithgareddau drwy ddarparu gwybodaeth fel sy'n ofynnol a chyfranogi mewn grwpiau ffocws ble y mae'n briodol ac oddi fewn i'r adnoddau sydd ar gael gennym ni.

Rydym yn parhau i fod yn aelod gweithgar o'r Cerdyn Pryniant Cymreig a'i gorff olynol a byddwn yn parhau i gefnogi ei waith o ran datblygu Contractau ar y cyd a chytundebau fframwaith a'i gyfraniad i'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol.

Mae cyrff caffael canolog a chonsortia eraill yn bodoli ledled y DU, yn fwyaf nodedig, gwasanaeth Crown Commercial Services a PRO5 sy'n cofleidio'r prif gonsortia oddi fewn i Loegr fel yr Eastern Shires Purchasing Organisation (ESPO). Bydd y Cyngor yn parhau i edrych ar y cyfleoedd ar gyfer gwella datrysiadau Caffael drwy'r cyrff hyn fel a ddarperir o dan gyfarwydddebau'r UE.

Byddwn hefyd yn parhau i edrych ar gydweithredu rhanbarthol gyda chyrff cyhoeddus eraill e.e. Cyflenwyr Bwrdeistref Sirol a phartneriaid oddi fewn i'r sector cyhoeddus. Yn ychwanegol, parheir i fynd i'r afael â chydweithio Mewn Tŷ i sicrhau ein bod ni'n dod â meysydd gwariant cyffredin at ei gilydd ar draws y Cyngor ac yn ennill y fantais o gydgrynhoad ac arbedion maint.

5.3 Proses a Chydymffurfiaeth

Bydd y Cyngor yn mabwysiadu ymagwedd gyffredin i gydweithrediad ar draws y Cyngor drwy

- Ddadansoddi a chydgrynhoi gwariant
- Safoni dogfennaeth a manylebau i gydymffurfio â chyrff eraill
- Cyfranogi'n weithredol o ran gweithio ar y cyd a gweithgareddau rhannu gwybodaeth gyda'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol a Chyrff Cydweithredol eraill
- Ystyried cyfleoedd ar gyfer cydweithredu pellach
- Monitro ac adrodd yn ôl ar yr holl weithgareddau cydweithredu i'r Cyngor yn

chwarterol ac yn yr adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru

Bydd y swyddogaeth Caffael y gweithio'n weithredol gydag adrannau eraill gan sicrhau cydsynio ble y mae'r Cyngor wedi cytuno i gyfranogi mewn trefniadau cydweithio i sicrhau ein bod ni'n cael y buddion a ddaw o weithgareddau o'r fath.

6 E-Gaffael a Thechnoleg

6.1 Strategaeth e-Gaffael a Thechnoleg

Byddwn yn cydsynio â Datganiad Polisi Caffael Cymru wrth geisio defnyddio'r offer e-Gaffael sydd ar gael a thechnoleg newydd i wneud mynediad i'n Contractau gan y gymuned fusnes yn haws.

Ein nod mewnol cyfredol yw defnyddio e-Gaffael newydd a chyfredol a thechnoleg arall i wella a symleiddio ein prosesau cyfredol i greu arfer Caffael effeithiol ar draws y Cyngor.

Byddwn hefyd yn sicrhau cydsyniad â gofynion Rheoliadau Contract Cyhoeddus 2015 a bydd yn ofynnol bod gan hwnnw systemau Caffael cwbl electronig erbyn 2018, ymhlith pethau eraill.

6.2 Arfer Cyfredol

Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio;

- System archebu ProcServ sy'n galluogi rheolaeth a monitro agosach o'r hyn a wariwyd
- Sell 2 Wales a SQuID
- Cerdyn Pryniant Cymreig
- E anfonebu
- Llwyfan e-dendro a Rheoli Gwariant Bravo Solutions
- Rheoli Portffolio D a B

Er bod cynnydd rhesymol wedi ei gyflawni wrth fabwysiadu a defnyddio'r offer hwn, mae'r lle am welliant pellach yn parhau. Byddwn yn ceisio cynyddu'r defnydd o'r offer hyn drwy annog y defnydd o gyfleusterau presennol a dechrau defnyddio'r offer newydd a gwell yn gyflymach i gynorthwyo'r Cyngor o ran ei effeithiolrwydd a'i gynnydd yn y maes gwaith hwn.

6.3 Mabwysiadu offer Newydd

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i wneud defnydd ehangach o'r offer presennol megis e-arwerthiannau a'r trefniadau a ddiwygiwyd yn ddiweddar ar gyfer yr holl Systemau Prynu Deinamig. Byddwn yn archwilio'r defnydd o offer e-Gaffael eraill megis rheoli Contract (Rheoli Cysylltiadau e-Werthwr) ac offer talu ac yn gweithio'n agos at EPS Gwerth Cymru i sicrhau ein bod ni mewn sefyllfa i fabwysiadu offer newydd sy'n cael eu datblygu ac unrhyw beth arall arloesol newydd pan fyddant yn dyfod ar gael.

6.4 Gwelliannau mewn Technoleg

Nid oes gan e-Gaffael fonopoli ar welliannau technolegol. Ceir llawer o ddatblygiadau eraill sy'n digwydd drwy dechnoleg yn y rhan fwyaf o'r marchnadoedd o ble'r ydym yn cael gofynion y Cyngor e.e. prosesau cynhyrchu, dulliau cyfathrebu ac atebion cyflenwi arloesol.

Byddwn yn sicrhau bod ein gweithgareddau Caffael yn ceisio gaffael yn y gwelliannau hyn i gynnwys ein manylebau tendr ac i ddarparu ar gyfer gwelliannau technolegol parhaus drwy gydol oes ein trefniadau Contract a Chomisiynu.

7 Buddion Cymunedol, amgylchedd a chydraddoldeb

7.1 Pwrpas a Nod

Yn unol â Datganiad Polisi Caffael Cymru, bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi Buddion Cymunedol a pholisïau Effaith Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol y Llywodraeth, y mae eu pwysigrwydd wedi ei ailadrodd yn natganiad diweddaraf y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth. Byddwn yn cymhwyso ymagwedd buddion cymunedol i'r holl Gaffael a defnyddio offer mesur CB ar gyfer pob Contract dros £1 miliwn a Chaffael dethol yn is na'r ffigwr hwn. Byddwn hefyd yn edrych am gyfleoedd a ddaw drwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Byddwn yn cynnwys buddion cymunedol fel gofynion craidd ble y gellir eu harddangos i fod yn berthnasol i bwnc testunol y Contract yn enwedig ym meysydd datblygiad economaidd, cyflogaeth a hyfforddiant, addysg, amgylcheddol a materion cymdeithasol.

7.2 Gweithio oddi fewn i'r economi leol

Mae cryfhau'r economi leol yn sylfaenol i bolisi'r Cyngor a gellir ei gefnogi'n sylweddol drwy ddilyn Strategaeth Caffael sy'n datblygu cyswllt cryf â'r ganolfan gyflenwi leol, gan greu gwell mynediad at ein cyfleoedd Contractau a Chaffael ar gyfer BbaChau lleol a sefydliadau eraill fel mentrau cymdeithasol a gweithdai a gysgodir.

Yn ychwanegol at greu cyflogaeth drwy ddatblygu ffynonellau cyflenwi lleol, byddwn hefyd yn creu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth drwy'r ganolfan gyflenwi ehangach.

Wrth sefydlu proses glir ac ymagwedd broactif at Fuddion Cymunedol oddi fewn i'r broses Gaffael, nid yn unig y bydd hyn yn cyflenwi buddion cymdeithasol ac economaidd ond bydd y Cyngor, y Gymuned a'r gadwyn gyflenwi leol ar eu hennill yn fasnachol hefyd.

7.3 Caffael a'r amgylchedd

Mae'r defnydd o Gaffael i gefnogi gwelliant amgylcheddol wedi ei hen sefydlu a'i gefnog gan y Cyngor hwn. Y mae hefyd yn brif ran o bolisi Ewropeaidd a Chenedlaethol ac yn un o brif egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru. Byddwn yn broactif wrth reoli ein cyflenwyr a'r cadwyni cyflenwi ehangach wrth edrych am ddulliau cadarnhaol o gyflawni buddion amgylcheddol. Byddwn yn cymhwyso offer Aseiad Risg Cynladwyedd i bob Caffael dros £25000 a defnyddio Costio Oes Gyfan ble y bo'n briodol i arddangos buddion ymagwedd o'r fath.

7.4 Dyletswydd Cydraddoldeb

Mae yna ofyniad gorfodol ar y Cyngor i fodloni ei ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb

2010 ac mae'n ofynnol bod ei gyflenwyr yn gwneud hynny hefyd. Fodd bynnag, gwell rheswm dros wneud hynny yw'r ei *fod* yn helpu i gyflawni amcanion polisi'r Cyngor. Wrth ei gymhwyso at weithgaredd Caffael y mae'n cyflenwi mwy o werth am arian a gwasanaethau o ansawdd uwch drwy sicrhau cyflenwi i'r grwpiau a ddiogelir cywir a chreu mwy o amrywiaeth i'r cyflenwr. Byddwn, drwy ein Strategaeth Caffael, yn ymdrechu i gyflenwi cydsyniad a gwerth.

8 Pobl

8.1 Pwrpas a Nod

Ein nod yw parhau i ddatblygu staff ar draws y Cyngor o ran cael gwell gwybodaeth am Gaffael, sgiliau masnachol cyffredinol a'r rheolau a'r rheoliadau perthnasol. Y mae'n hanfodol bellach â chynifer o swyddogion yn gysylltiedig â rhyw ffurf ar weithgaredd Caffael, bod gwelliannau'n cael eu gwneud yn y maes hwn.

8.2 Gallu a capasiti

Gyda thwf Caffael, comisiynu a gweithgareddau masnachol eraill ar draws y Cyngor, mae angen i ni godi gallu ein staff a'r capasiti sydd gennym i ddelio â'r gweithgarwch hwn. Gall y tîm Caffael ddarparu canllaw, datblygu prosesau a datblygu ymagwedd safonedig at Gaffael. Fodd bynnag, caiff llawer o weithgarwch Caffael, e.e. rheoli Contract ei gyflawni gan adrannau y mae rhai ohonynt yn meddu ar brofiad sylweddol ond bod rhai yn gweithredu mewn marchnadoedd anaeddfed iawn sef y mwyaf anodd ei rheoli'n aml e.e. gofal cymdeithasol. Bydd angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o adeiladu'r gallu a'r capasiti angenrheidiol i gyflenwi gofynion Caffael.

8.3 Hyfforddi a Chefnogi Datblygiad

Mae polisi Llywodraeth Cymru wedi gosod y dasg arnom i sicrhau ein bod yn datblygu sgiliau ac adnoddau digonol i gyflawni Caffael yn effeithiol.

Cawn ein harwain gan ddadansoddiad angen am hyfforddiant Adnoddau Dynol i wneud defnydd o'r Fframwaith Cymhwysedd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bry gan Werth Cymru a datblygu cynllun hyfforddiant o'r wybodaeth hon.

Caiff swyddogion sydd am gael cyfleoedd i fynychu cyrsiau arbenigol byr a ddarparwyd o dan drefniadau Contract Gwerth Cymru ar gyfer hyfforddiant. Byddwn hefyd yn ystyried cyrsiau ymwybyddiaeth ar gyfer staff di-Gaffael drwy gwrs byr Cyflwyniad i Gaffael neu'r set o gyrsiau modwlar ar gyfer swyddogion dethol.

Bydd swyddogion yn derbyn cefnogaeth sydd am dderbyn cymwysterau sefydliad Siartredig Caffael neu gymwysterau perthnasol eraill. Byddwn yn cael mynediad at unrhyw ariannu sydd ar gael drwy Werth Cymru i gefnogi hyn.

Byddwn yn archwilio dulliau eraill o ddatblygu sgiliau, er enghraifft, drwy ddefnyddio gweminarau mewnol neu foddau eraill electronig o hyfforddi ar-lein.